**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref DB/00552/23
Rhuanedd Richards
Cyfarwyddwr
BBC Cymru

rhuanedd.richards@bbc.co.uk

16 Hydref 2023

Annwyl Rhuanedd,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 30 Awst, mewn ymateb i gyhoeddi adroddiad y Panel Arbenigol ar Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru. Ymddiheuraf am yr oedi yn fy ymateb.

Fel y gwyddoch, sefydlwyd y Panel Arbenigol o ganlyniad i'n hymrwymiad yng Nghytundeb Cydweithio Llywodraeth Cymru â Phlaid Cymru. Rhoddwyd iddo'r dasg o ddarparu argymhellion ac opsiynau i helpu i atgyfnerthu'r cyfryngau yng Nghymru a chefnogi'r gwaith o ddatblygu cynlluniau ar gyfer fframwaith rheoleiddio darlledu i Gymru sy'n effeithiol ac yn addas i'r diben. Cyfarfu'r Panel yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, ymgysylltodd ag ystod o randdeiliaid, comisiynodd waith ymchwil wedi'i dargedu a cheisiodd dystiolaeth i lywio'i argymhellion, a nodwyd yn yr adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Awst.

Fel adroddiad annibynnol i Lywodraeth Cymru, mae unrhyw un o'r datganiadau sy'n cael eu gwneud yn yr Adroddiad yn adlewyrchu barn a safbwynt aelodau'r Panel. Gan hynny, ni fyddai'n briodol inni geisio dehongli rhesymeg y Panel ac ymateb yn uniongyrchol i'ch cais am ragor o wybodaeth ar sail y datganiadau hyn. Gan fod cyhoeddi'r adroddiad yn nodi diwedd gwaith y Panel, ni allwn geisio ymateb y Panel i'r rhain ychwaith. Fodd bynnag, rydym yn ddiolchgar ichi am ddwyn y pwyntiau hyn i'n sylw ac rydym yn deall y rôl y mae BBC Cymru yn geisio ei chyflawni o fewn y fframwaith cyfredol hwnnw. Yn benodol, rydym yn croesawu'r wybodaeth bellach yr ydych wedi'i darparu i roi cyd-destun i'r ffigurau a ddyfynnwyd yn yr adroddiad, sy'n ymwneud â'r oriau o raglenni ar gyfer newyddion a materion cyfoes, addysg, cynnwys ffeithiol a chrefydd. Bydd yr wybodaeth hon yn hynod ddefnyddiol wrth inni ddatblygu ein gwaith ymhellach, drwy'r Cytundeb Cydweithio, i ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad a chytuno ar y camau nesaf. Nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto. Rydym bellach yn ystyried y ffordd ymlaen yn dilyn derbyn adroddiad ac argymhellion y Panel Arbenigol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran y cais am wybodaeth am y fethodoleg a maint y sampl a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad ymchwil ar Dueddiadau Darlledu a gomisiynwyd gan y Panel, rydym wedi cael ar ddeall mai prif ffynhonnell y data ar gyfer y gwaith dadansoddi a wnaed gan Enders Analysis oedd Barb (Broadcast Audience Research Board), lle mae data gwylio yn deillio o banel cynrychioladol o'r DU o 5,300 o aelwydydd a thua 12,000 o unigolion. Roedd data Barb ar gyfer Cymru yn seiliedig ar sampl o 743 o bobl, a oedd yn cynrychioli poblogaeth gyffredinol o 2,911,073 o bobl sy'n berchen ar deledu, sy'n golygu bod pob person ar banel Cymru Barb yn cynrychioli oddeutu 3,918 o bobl.

Cafodd yr amcanestyniadau ar gyfer gwylio fideos yng Nghymru hyd at 2027 eu hamcangyfrif gan ddefnyddio model Enders Analysis ei hun, a oedd yn seiliedig ar wahanol ffynonellau'r diwydiant. Yn bennaf, roedd hyn yn cynnwys data Barb ar wylio teledu a data Comscore ar y defnydd o blatfformau fideo ar-lein, sy'n olrhain y tueddiadau ym mhob categori gwylio dros gyfnod o 12 mlynedd. Yn ogystal, yn y rhagolygon ar gyfer Cymru, defnyddiwyd nifer o dybiaethau sylfaenol, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gyffredin i ragolygon gwylio ledled y DU.

Yn y gwaith modelu ar gyfer y data gwylio, defnyddiwyd grwpiau demograffeg wedi'u hehangu hefyd (4+, 4-24, 25-44, 45-64, 65+) er mwyn cyfrif am y ffaith bod y meintiau sampl a ddefnyddiwyd gan banel Barb yn llai yng Nghymru. Roedd y samplau ar gyfer grwpiau oedran deng-mlynedd yng Nghymru (plant, a phobl 16-24 oed, 25-34 oed, 35-44 oed and 45-54 oed) i gyd yn llai na 100 o bobl, tra oedd y samplau a ddefnyddiwyd ar gyfer y grwpiau demograffeg yn cynnwys mwy na 200 o bobl, ac eithrio'r grŵp 4-24, gyda 138 o bobl. Defnyddiwyd cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac amcanestyniadau poblogaeth, ynghyd â data o Arolwg Sefydliadau Barb i amcangyfrif twf poblogaeth Cymru a chyfansoddiad ei demograffeg hyd at 2027.

I gyfrifo'r ffigurau sy'n ymwneud â data gwrando ar y radio, defnyddiwyd data o RAJAR drwy arolwg aelwydydd. Mae gorsafoedd cenedlaethol yn adrodd ar sampl chwarterol o oddeutu 25,000 o ddyddiaduron. Wrth archwilio dadansoddiadau demograffeg, neu ddata gan orsafoedd llai, gall y meintiau sampl ddod yn rhy fach i wneud gwaith dadansoddi ystyrlon, ac mae'r sefyllfa'n amrywio llawer iawn mwy rhwng pob arolwg nag ydyw wrth edrych ar lefel y DU.

Mae'r diffiniad o 'raglenni rhwydwaith Cymru' yn cyfeirio at yr holl raglenni "optio allan" sy'n cael eu gwylio ar rwydwaith rhanbarthol Cymru.

Rwy'n cael ar ddeall y gwnaethoch gwrdd â'r Prif Weinidog yn ddiweddar a thrafod yr adroddiad a'ch sylwadau ag ef. Fel y nodwyd yn ystod y cyfarfod hwnnw, rydym yn awyddus i barhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys BBC Cymru, wrth inni fyfyrio ar gynnwys yr adroddiad ac ymateb i'w argymhellion. Yn y cyfamser, os oes gennych ragor o sylwadau neu os hoffech drafod yr ymateb hwn ymhellach, byddai fy swyddogion yn Cymru Creadigol un hapus i drefnu cyfarfod â chi.

Yn gywir,

**Dawn Bowden AS**
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth